Dosbarthwch yn eang os gwelwch yn dda

rhwydwaith ysgolion adcdf

Diweddariad ~ Mai 2011

Mae'r 'Diweddariad' hwn yn adeiladu ar y brwdfrydedd a grëwyd gan seminar y rhwydwaith ym mis Ebrill. Mae'n amlwg bod potensial ar gyfer y rhwydwaith newydd ond mae nifer o gwestiynau i'w hateb. Cwestiynau ynghylch sut y gallwn gyflawni'r rhinweddau yr ydym yn dyheu amdanynt, sut orau i ychwanegu gwerth at yr hyn y mae eraill yn ei wneud ... a sut mae gwneud y gorau o'r potensial creadigol sydd i'w gael mewn nifer o ysgolion. O ... a sut i'w ariannu!

Mae'n amlygu'r gynhadledd ADCDF
ar **ddydd Llun 4ydd o Orffennaf** yn y Pafiliwn, Llandrindod

Y thema fydd .....

ADCDF mewn ysgolion~galluogi arfer sy'n arwain y sector

Ceisiadau erbyn 24ain o Fehefin

Mae'n ceisio cefnogaeth i rwydweithiau creadigol newydd yn enwedig:

- **ADCDF a Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth ~ gwneud y cwbl yn rhywbeth byw.**
- **Gwaith Cyfnod Allweddol 3 ar goedwigoedd glaw trofannol**
- **Llywodraethwyr ysgolion ... ysbrydoli adcdf**

Mae hefyd yn codi cwestiynau ynghylch ~

- **sut mae gwella cysylltiadau dysgu**
- **sut mae ailfywiogi dinasyddiaeth fyd-eang**
- **sut mae adeiladu rhwydwaith a arweinir gan ysgolion**

cyfanfyd

E-bost: **Scott Sinclair**
scott.sinclair@esdgc-schools.net

www.cyfanfyd.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig No. 1127706

Trosolwg ~

Mae gan ADCDF ran allweddol i'w chwarae o safbwynt helpu ysgolion i ymateb i heriau diweddar ynglŷn ag ansawdd dysgu yng Nghymru, fel a godwyd gan adroddiad PISA. Roedd hon yn thema ganolog yn seminar ddiweddar y 'Rhwydwaith Ysgolion ADCDF' ... gweler tudalennau 6,7 ac 8.
Mae erthygl a gyhoeddwyd yn The **Times Ed Cymru**, sef *Global citizenship in 'real danger' of being overlooked* yn rhoi sylw i'r digwyddiad ac yn syntheseiddio pryderon ... Gweler http://www.tes.co.uk/article.aspx?storycode=6080628

Gall grwpiau creadigol a rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar dasgau go iawn gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol. Maent hefyd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer trafodaeth go iawn am y materion a'r goblygiadau i ddysgu ac addysgu. Mae a wnelo arfer sy'n arwain y sector â rhannu'r anawsterau hynny a rhoi cymorth i'n gilydd fel 'cyfeillion critigol'.

Mae'r 'Diweddariad' hwn yn cynnwys 3 grŵp newydd sy'n helpu i ddatblygu ein dull o weithio. Gweler tudalennau 4,5 a 9. Mae grwpiau eraill yn dechrau dod i drefn ond datganiadau o ddiddordeb yw'r allwedd. Felly rhowch wybod inni am eich diddordebau os gwelwch yn dda. Ymddengys fod her **gwella dysgu mewn dinasyddiaeth fyd-eang** yn un allweddol ... unrhyw awgrymiadau?

Bydd y gynhadledd [4ydd o Orffennaf] yn rhannol yn edrych tua'r dyfodol. Bydd y cyfraniad gan Sefydliad Ellen MacArthur yn ein galluogi i ystyried dysgu ym maes adcdf yng nghyd-destun economi fwy cynaliadwy yng Nghymru yn y dyfodol.
Gweler http://www.ellenmacarthurfoundation.org/convince_me

Felly sut mae newid o ddull "cymryd, gwneud a gwaredu" i 'economi gylchol' ... a beth yw'r goblygiadau i ddysgwyr
... ac felly i'r ffordd o feddwl am adcdf yn y dyfodol?

'Economi linol'

Cymryd - Gwneud - Gwaredu

'Economi gylchol'



Systemau Naturiol / Byw

galluogi arfer sy'n arwain y sector

Cynhadledd ~ Dydd Llun 4ydd o Orffennaf

Mae'r diwrnod wedi'i fwriadu i ddwyn ynghyd athrawon, cydlynwyr ADCDF, penaethiaid ac eraill o dimau rheoli ysgolion [Cynradd ac Uwchradd] yn ogystal â Llywodraethwyr, swyddogion o Estyn, Awdurdodau Lleol, Cyrff Anllywodraethol a mudiadau a sefydliadau eraill sy'n ategu ADCDF mewn ysgolion megis darparwyr Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Bydd y gynhadledd yn ymdrin â'r thema: **ADCDF mewn ysgolion ~ galluogi arfer sy'n arwain y sector** yn gyntaf trwy roi cyfle i rannu syniadau ac arfer ac yn ail trwy edrych tua'r dyfodol ... gan weithio ar y creadigrwydd y mae ei angen ar gyfer y cam nesaf o ran arweinyddiaeth.

Rydym wrthi'n gweithio ar y rhaglen ar hyn o bryd ~ bydd yn adeiladu ar eich cynigion chi ar gyfer rhannu syniadau ac arfer. Diolch am y rhai sydd eisoes wedi dod i law. Byddwn yn cadarnhau'r cynlluniau ar ôl y 14eg o Fehefin. Bydd 'marchnadle' hefyd gyda lle ar fyrddau neu gyfleoedd i arddangos posteri. Gofynnwch am le os gwelwch yn dda.

Bydd hefyd yn cynnwys:

Cyfraniad gan Nigel Vaughan [Estyn] ar arfer sy'n arwain y sector
Panel o athrawon a phenaethiaid yn amlygu profiadau allweddol
Gweithdai'n canolbwyntio ar y sectorau Cynradd ac Uwchradd
Marchnadle ... i gyfnewid syniadau, a chynnig cymorth
Ken Webster, Sefydliad Ellen MacArthur
Alun Morgan [Estyn] a Karl Napieralla [Cyfarwyddwr, Castell-nedd/Port Talbot]

Dydd Llun 4ydd o Orffennaf ~ 9.30 ar gyfer 10.00 tan 15.30
Y Pafiliwn, Llandrindod, LD1 5EY

Ffi'r gynhadledd £75

Archebion erbyn **dydd Mawrth 14eg o Fehefin**

i archebu eich lle ~

Anfonwch neges e-bost i : scott.sinclair@esdgc-schools.net

- ✓ Enw, Eich rôl, Cyfeiriad eich ysgol / mudiad neu sefydliad
- ✓ Cyfeiriad e-bost ar gyfer yr anfoneb [os yn wahanol]
- ✓ Ydych chi'n dymuno cael lle i arddangos posteri / lle ar fwrdd i rannu syniadau?
- ✓ Oes gennych chi unrhyw anghenion dietegol neu anghenion eraill?

Chwilio am athrawon Cyfnod Allweddol 3 ~

- ◇ i ymuno â grŵp bach i helpu i feddwl am syniadau a chreu deunyddiau;
- ◇ i fod yn rhan o grŵp mwy i dderbyn pecyn enghreifftiol i'w dreialu.

Coedwigoedd glaw trofannol

Cynigir ein bod yn dechrau â daearyddiaeth ac yna'n chwilio am gysylltiadau â rhannau eraill o'r cwricwlwm.

Mae coedwigoedd glaw'n bwysig yn lleol ac yn fyd-eang. Maent yn rhan o ddeall y newid yn yr hinsawdd fyd-eang. Yn lleol yn Affrica maent yn destun tensiynau ynghylch datblygu priodol.

Felly fe hoffem glywed oddi wrth athrawon daearyddiaeth, a'r rheiny sy'n ymwneud â gwyddoniaeth, ABCh a chydlynwyr ADCDF.

Fel rhan o'r broses cynigir ein bod yn anfon casgliad o luniau gyda gweithgareddau ategol at bawb a fydd yn cymryd rhan i ysgogi adborth ar y materion y mae dysgwyr yn eu nodi ... a'u cwestiynau ymholi.

Mae coedwigoedd glaw hefyd wedi bod yn ffocws defnyddiol ar gyfer 'wythnosau arloesi' neu ddigwyddiadau tebyg pan fo'r amserlen yn cael ei hatal dros dro. Rydym hefyd yn chwilio am athrawon a fyddai â diddordeb mewn rhannu profiadau o'r fath i alluogi eraill i ddysgu ohonynt.

Sut mae pobl yn rhyngweithio'n lleol gyda choedwigoedd glaw?

Beth yw eu dyheadau ar gyfer y dyfodol?

Beth yw'r cysylltiadau â ni yma yng Nghymru?

Anfonwch neges e-bost i : scott.sinclair@esdgc-schools.net

Size of Wales
Maint Cymru

Mae partneriaeth gyda Maint Cymru, elusen sy'n ymrwymedig i gynnal coedwigoedd glaw trofannol er mwyn gwarchod hinsawdd y byd, wedi ein galluogi i gynnig y prosiect yma.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Mae partneriaeth gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru wrthi'n cael ei thrafod i'n galluogi i gynnig y prosiect yma.

Gwneud y cwbl yn rhywbeth byw

ADCDF a Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth

Mae Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn hollbwysig i ymgysylltu â dyheadau ADCDF ... mae'n helpu i wneud y cwbl yn rhywbeth byw.

Mae'r prosiect yn seiliedig ar ddau gynigiad:

- **bod angen i sefydliadau Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth** gael y cyfle i fyfyrio ar yr heriau dysgu sy'n gysylltiedig ag adcdf a rhoi cymorth i'w gilydd i wella'r hyn a gynigir i ddysgwyr;
- **y gallai ysgolion yng nghyfnod allweddol 3** fanteisio'n fwy ar gyfleoedd ar gyfer Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth i ysgogi dysgu o ansawdd a datblygu sgiliau ymholi.

Bydd proses y prosiect yn esblygu i gwrdd ag anghenion y mudiadau/sefydliadau sy'n rhan ohono a'r ffyrdd y gall gyfrannu tuag at eu gwaith. Er enghraifft sut all roi cymorth gyda gwaith Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ym maes adcdf ar fferm, mewn canolfan amgylcheddol neu yng nghymuned yr ysgol?

Anfonwch neges e-bost i : scott.sinclair@esdgc-schools.net

Chwilio am ddarparwyr Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth

- i ymuno â grŵp cenedlaethol i ymateb i'r heriau hyn, datblygu syniadau a gweithio'n greadigol mewn partneriaeth gydag athrawon;
- i gloriannu'r hyn sy'n cael ei gynnig i ysgolion a helpu i roi proffil mwy cyflawn iddo;
- i gynnal digwyddiad cenedlaethol a fyddai'n dwyn ynghyd athrawon a darparwyr Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth i ddysgu o brofiadau'r prosiect.

Bydd y prosiect yn darparu gweithdai preswyl i alluogi'r gwaith craidd.

Seminar y Rhwydwaith

Gareth Wyn Jones ~

Y Cadeirydd yn gosod y cywair

[11eg o Ebrill]

Yr ydym yn byw mewn byd cythryblus iawn.Does dim ond angen I ni ddarllen papur neu wrando ar y newyddion I glywed am ryfeloedd yn Libya, Afgahanistan ac Arfordir Ifori. Mae sefyllfa economaidd amryw o wledydd gan gynnwys Prydain yn peri pryder, ac mae amryw o storiau am newidiadau yn yr hinsawdd ac effaith hyn ar fobl yn aml ar y cyfryngau. Yn ddiweddar roedd y teledu yn llawn o newyddion am effaith dychrynllyd y daeargryn a'r Tsunami yn Siapan a'r pryderon am ymbelydredd o orsafoedd niwclear y wlad honno. Newyddion a oedd yn peri pryder a tosturi am fobl y wlad honno.

Dyma'r byd mae ein plant a'n bobl ifanc yn byw ynddo, a dros y blynyddoedd nesaf bydd yr heriau hyn , a rhai tebyg yn dal iw gwynebu a bydd nifer fawr ohonynt yn gweithio I ymrafael a cheisio datrys y mathau hyn o broblemau er budd dynoliaeth yn gyffredinol.

Wrth gwrs mae gennym gennym hefyd nifer o heriau ym myd addysg yng Nghymru heddiw ac mae'r seminar hwn wedi ei drefnu gydag ymwybyddiaeth glir o beth yw'r heriau hyn, a'r lle pwysig sydd I ADCF wrth ymateb I rai o'r heriau hyn.

Mae tystiolaeth o dangyflawniad gan ddisgyblion o gymharu gyda gwledydd eraill yn ol adroddiad Pisa, ac mae'r adroddiad hwnnw wedi rhoi cryn ysgytwad I'r byd addysg yng Nhymru.

Er hyn mae nifer o gryfderau o fewn ein sustem addysgiadol. Mae datblygiadau megis Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion, Fframawaith Arolygu Estyn, y datblygiad I sefydlu Cymunedau Professiynol o athrawon yn gosod seiliau cryf er mwyn hybu gwellianau mewn cyflawniad disgyblion. Ond yr hyn sydd yn allweddol mewn unrhyw strategaeth I wella cyflawniad disgyblion yw cefnogaeth gan, a cefnogaeth I, athrawon. Mae'r seminar yma heddiw wedi cael ei drefnu gyda'r bwriad I hyrwyddo hyn a credaf bod gan ACDF ran allwedol iw chwarae wrth ymateb I dangyflawniad disgyblion. Mae'r seminar hwn heddiw yn ymgais, o'r gwaelod I fynu, I hybu

> Yn ystod ein trafodaethau heddiw gobeithio y cawn gyfle I edrych ar y ffordd mae ACDF yn esgogi dysgwyr I ddefnyddio eu dysg I ddatrys problemau real ein byd,I sylweddoli bod ACDFyn gyd-gysylltydd mewn nifer o bynciau y cwricwlwm,ac yn gyfrwng I ddatblygu uwch sgiliau cymhleth disgyblion, ac yn gyfrwng I ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion ou cyfraniad hwy, fel dinasyddion, I hyrwyddo dinasyddiaeth byd eang trwy werthoedd ac ymagweddau iach a chadarnhaol.

sustemau ACDF a fydd yn gefnogaeth I athrawon wrth hyrwyddo safonau uwch I'n disgyblion.

Yr ydym yn cyfarfod yma yn y Deml Heddwch ym Mharc Cathays, ac fel y gwyddoch mae hwn yn adeilad iconic a hanesyddol iawn. Agorwyd yn 1938 fel rhodd yr ArglwyddDavies o Landinam I Gymru.Yr oedd I fod yn gofeb I'r dewrion hynny o bob gwlad a gollodd eu bywydau yn y rhyfel a oedd I orffen bob rhyfel, sef rhyfel byd 1914-1918. Cwestiwn a ofynwyd yn aml gan yr Arglwydd Davies oedd. ***"Beth a fydd gwlad yn elwa o ennill yr holl fyd os y bydd yn colli ei henaid?"***

Mae'r adeilad ei hun wedi ei gynllunio gan y pensaer Syr Percy Thomas a ennillodd fedal efydd am y cynllun. Mae'r adeilad ei hun wedi ei adeiladu gan ddefnyddio defnyddiau o amryw o wledydd er mwyn tanlinellu natur rhyngwladol I'r gwaith a oedd iw gyflawni o fewn yr adeilad.

Felly credaf ei fod yn berthnasol iawn heddiw ein bod ni yn trafod ac yn cyd weithio heddiw I hybu datblygu rhwydweithiau ACDF o fewn yr adeilad hwn gydai' gefndir hanesyddol o hyrwyddo dinasyddiaeth byd eang.

gallai adcdf gyfrannu at wella dysgu ac addysgu trwy:

Awgrym ymarferol ar y naill law

- *Bawd:* gwneud cyd-destunau dysgu'n real ac yn berthnasol i'r dysgwyr ac i'r (rhan fwyaf o) athrawon – **cymhelliant**
- *Mynegfys:* darparu llu o gyfleoedd **cyfranogi** i ddisgyblion a chymunedau,
- *Bys canol:* ceisio'r **echelin leol / fyd-eang** ym mhob rhan o'r cwricwlwm
- *Bys modrwy:* **gwella sgiliau meddwl** (PISA, Athroniaeth i Blant, cyfiawnhau safbwyntiau, bod yn ystyriol o eraill)
- *Bys bach:* darparu cyfleoedd ymarferol ar gyfer **dysgu yn yr awyr agored** (mae'n dod â ni yn ôl at ecosystemau)

mae adcdf hefyd yn cyfrannu at:

Y manteision anuniongyrchol ar y llaw arall

- *Bawd:* **ethos ofalgar**
- *Mynegfys:* amrywio yn yr ysgol, trwy **gynnwys y rhai sydd wedi ymddieithrio**
- *Bys canol:* **lles** corfforol ac emosiynol (e.e. mae tyfu bwyd yn gwella dietau ac yn rhoi cyfleoedd ar gyfer garddio)
- *Bys modrwy:* **arbed/rhyddhau arian**, ond gochelwch rhag yr hyn y mae arian yn ei wneud wedyn
- *Bys bach:* **prif egwyddor drefniadol** (mae'n darparu ffyrdd y gall ysgolion fynd i'r afael â'u dibenion craidd sef paratoi ein pobl ifanc a chyfoethogi'r gymuned)

Rhai awgrymiadau yn y seminar ar Ebrill 11eg gan Jonathan Rigby, Pennaeth, Ysgol Gynradd Coedpenmaen, Pontypridd

Rhai heriau allweddol i adcdf

Roedd y seminar ym mis Ebrill yn canolbwyntio ar adcdf a dysgu ... fe gododd nifer o heriau .. er enghraifft:

Sut i wneud yr agenda adcdf yn gynaliadwy

ADCDF a sgiliau lefel uwch

Cydbwysedd gwybodaeth ... gwahanol safbwyntiau

Cysylltu dysgu â'r byd go iawn

Disgyblion yn rhwydweithio yn yr ysgol a rhwng ysgolion

Arweinyddiaeth gan y Pennaeth ac ategu arfer arloesol gan staff / disgyblion

Ennyn diddordeb dysgwyr yn barhaus
Gwneud y cwbl yn berthnasol

Dau Bennaeth [Jonathan Rigby ~ Ysgol Gynradd Coedpenmaen a Phil Jones ~ Ysgol Gyfun Heolddu] ddechreuodd y sgwrs a ddaeth â 70 o bobl ynghyd yn y Deml Heddwch. Roeddent yn cynnwys penaethiaid, uwch reolwyr, cydlynwyr ADCDF ac athrawon o ysgolion a staff Awdurdodau Lleol, Cyrff Anllywodraethol a mudiadau/sefydliadau eraill sy'n ategu ADCDF. Fe gyfrannodd yr Athro David Egan ac Alun Morgan o Estyn at y drafodaeth hefyd.

Fe brofodd y gosodiad ***Peidiwch â gofyn beth all fy ysgol i ei wneud dros adcdf ond yn hytrach beth all adcdf ei wneud dros fy ysgol i*** yn fan cychwyn defnyddiol, gan ei gwneud yn glir bod a wnelo adcdf â swyddogaeth graidd ysgolion a diwallu anghenion dysgwyr.

Trwy ystyried hyn yng nghyd-destun adroddiad PISA fe ysgogwyd cryn dipyn o drafod. Roedd rhai'n cwestiynu'r tybiaethau am werthoedd yn adroddiad PISA ac yn cynnig bod angen gwneud mwy i archwilio gwerth cyfranogi a grymuso. Roedd eraill yn teimlo nad yw'r ymateb i PISA wedi cymryd amser i ystyried y strategaethau sy'n gweddu orau i Gymru a'i dyfodol. Er enghraifft strategaethau sy'n cysylltu gweithgarwch economaidd yn y dyfodol â chynaliadwyedd. Roedd consensws fodd bynnag bod gan ADCDF ran i'w chwarae wrth alluogi ysgolion i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu a gynigir ... a bod iddi fanteision pendant.

Gall ADCDF gynnig cymhelliant i ddysgwyr a'r cyfle i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd i sefyllfaoedd go iawn. Mae'n rhoi symbyliad i ddysgu cysylltiedig. Mae ADCDF yn darparu ystod o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau lefel-uwch, megis y rheiny a amlygir gan PISA, er enghraifft trwy archwilio cymhlethdod materion.

Mae'n amlwg bod cryn dipyn i'w wneud i alluogi arfer sy'n arwain y sector mewn ADCDF ac y gallai cydweithio rhwng ysgolion fod yn allweddol yn hyn o beth. Dyna'r her fwyaf i'r rhwydwaith.

Chwilio am ... Lywodraethwyr a'r rheiny sy'n rhoi cymorth iddynt ~

- ◇ i ymuno â grŵp ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chaerffili i helpu i feddwl am syniadau a chreu deunyddiau ar gyfer adcdf;
- ◇ i ymuno â grŵp cenedlaethol i helpu i drefnu gwaith dilynol mewn gwahanol rannau o'r wlad.

Beth yw ein rôl ni fel llywodraethwyr?

Gofynnwyd y cwestiwn yma mewn gweithdai yn ystod Cynhadledd gan Lywodraethwyr Cymru ym mis Mawrth.

Mewn partneriaeth gyda swyddogion ADCDF o Awdurdodau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerffili, mae'r Rhwydwaith yn bwriadu datblygu syniadau allweddol o'r gweithdai ac archwilio'r posibilrwydd o brosiect gyda llywodraethwyr ledled Cymru.

Syniadau allweddol i'w datblygu ~

- ❑ Mae'n werthfawr bod â llywodraethwr arweiniol ar gyfer ADCDF ym mhob ysgol.
- ❑ Mae ar y rheiny sy'n arwain yn hyn o beth angen deunydd a gweithgareddau i'w cynorthwyo yn eu rôl.
- ❑ Fe allem ni ddatblygu 'pecyn cymorth' ... "gyda 10 man cychwyn",
- ❑ ac fe allai hwn gynnwys dogfen fer ar ADCDF i'w rhoi i lywodraethwyr newydd.

Fe gawsom drafodaeth ar ein safbwyntiau am ADCDF a'i photensial. Fe wnaethom rannu ein dyheadau ar gyfer ADCDF mewn ysgolion a rhai pryderon, er enghraifft ynghylch cymhlethdod rhai materion.

Fe ddysgon ni am siarter ADCDF sydd wedi cael ei ddatblygu gan lywodraethwyr yng Nghaerffili. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y broses o greu'r siarter a'r hyn y gallem ni ei ddysgu o hynny.

Cafwyd trafodaeth am ADCDF yn cwrdd ag anghenion dysgu sylfaenol, trafodaeth a ysgogwyd gan weithgaredd a oedd yn gofyn i ni wneud y canlynol:

'Dychmygwch ddysgwyr o'n hysgol ~ pan eu bod yn 50'

Cafwyd gwahanol safbwyntiau ynghylch y math o fyd y byddent yn byw ynddo. A fydd cymdeithas yn well ynteu'n waeth? Pa faterion mewn perthynas â'r amgylchedd fydd yn hawlio'r prif sylw? Roedd yn amlwg i ni nad oeddem yn gwybod, mai dim ond dyfalu y gallem ni ei wneud a bod ein pesimistiaeth [neu optimistiaeth] yn cael dylanwad cryf. Roedd consensws y byddai cysylltiadau byd-eang yn fwyfwy pwysig. Mynegwyd pryder er enghraifft ynghylch *"Diffyg ymwybyddiaeth o'n cysylltiadau byd-eang" a'r ffaith bod "nifer o blant yn peidio â chael profiad o leiafrifoedd ethnig yn yr ysgol".*

Anfonwch neges e-bost i : scott.sinclair@esdgc-schools.net

Bydd nodau a strwythurau rhwydwaith newydd yn esblygu wrth iddo ddod yn hyfyw.

Ar y cam hwn rydym yn cadarnhau syniadau a rannwyd yn y rhifyn diwethaf o'r 'Diweddariad'.

Tudalen gefn ~ ar nodau

mae'r rhwydweithiau ysgolion ADCDF yn adeiladu rhwydwaith dynamig …

o ymarferwyr ym myd addysg o ysgolion,
o blith y rheiny sy'n rhoi cymorth i ysgolion a HCA yn ogystal â'r rheiny sy'n gysylltiedig â materion ym maes datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang trwy gyrff yn y sector gwirfoddol, ymchwil neu waith arall ym maes ADCDF.

Ein nodau yw …

Bod yn gyfryngwr ar gyfer cydgymorth yn y sector ysgolion i alluogi dulliau sy'n cynnwys dysgwyr yn y broses o ymateb i heriau ADCDF.

Ymgysylltu â gwybodaeth, manylion cyfredol a syniadau ysbrydoledig am faterion sy'n ymwneud ag ADCDF a defnyddio hynny i lunio cyfleoedd dysgu.

… a rhannu gwaith o'r fath.



Rydym yn cynnig rhoi blaenoriaeth i strategaethau …

- sy'n cynnig gwerth ychwanegol i feddwl am y dull seiliedig ar gymunedau dysgu proffesiynol a nodir yn y FfEY trwy ddefnyddio'r egwyddorion hynny wrth lunio pob prosiect;
- sy'n rhoi cymorth i ysgolion ddatblygu dysgu a chynlluniau cwricwlwm ym maes ADCDF yng nghyd-destun Arweiniad Estyn ar ADCDF a'r FfAC;
- sy'n datblygu, ar y cyd ag ymarferwyr, syniadau ac arfer sy'n cryfhau cyfraniad dysgu byd-eang at bob agwedd ar ADCDF ... ac fel rhan o hynny, yn datblygu dimensiwn Cymreig cryfach

Rôl y Rhwydwaith yw cynnig gwerth ychwanegol i'r hyn y mae ysgolion yn ei wneud, cyfryngu partneriaeth rhwng ysgolion a galluogi ysgolion i arwain.

Mae'r cynlluniau'n gorfod newid yng nghyd-destun yr hinsawdd gyllido ond mae hynny'n ein gwneud yn fwy ymwybodol o asedau allweddol.

"Syniadau, partneriaethau, rôl eglur, egni ymarferwyr ADCDF, dynameg ysgolion … dyma ein hasedau allweddol"